NOMS National Offender Management Service

Working together to reduce re-offending

Mesur Rheoli Troseddwyr:

Asesiad Effaith Reoleiddiol

Home Office

NOMS National Offender Management Service

Working together to reduce re-offending

Home Office

ASESIAD EFFAITH REOLEIDDIOL

Cynnwys

Asesiad Effaith Reoleiddiol Cyffredinol ar gyfer y Mesur Rheoli Troseddwyr **tud. 4**

Atodiad A: Asesiad Effaith Reoleiddiol: Trefniadau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau prawf **tud. 13**

Atodiad B: Asesiad Effaith Reoleiddiol: Trosglwyddo pwerau i garchardai a chanolfannau hyfforddi diogel dan gontract **tud. 29**

Atodiad C: Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb Hiliol **tud. 34**

Asesiad Effaith Reoleiddiol Cyffredinol

1. TEITL Y CYNNIG

Mesur Rheoli Troseddwyr

2. DIBEN AC EFFAITH FWRIADEDIG

Amcan

Nod cyffredinol y Mesur yw cyfrannu at ostwng aildroseddu a diogelu'r cyhoedd. Bydd y Mesur yn gwella'r ffordd yr ydym yn rheoli troseddwyr o fewn y system cyfiawnder troseddol drwy:

1. Galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ymrwymo i gontractau gydag amrywiaeth o ddarparwyr ar gyfer darparu gwasanaethau prawf.

2. Dileu rhai o'r anghysonderau rhwng pwerau staff mewn sefydliadau carcharol cyhoeddus a phreifat.

3. Diwygio troseddau cyfredol o ddod ag eitemau i mewn i garchardai.

4. Galluogi rhannau gwahanol o'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) i rannu gwybodaeth gyda'i gilydd.

5. Gwneud gwelliannau technegol er mwyn gallu cyflwyno'r system cyfiawnder troseddol yn fwy effeithlon

Cefndir

Mae'r Asesiad Effaith Reoleiddiol ar gyfer y Mesur Rheoli Troseddwyr yn cynnwys dau asesiad effaith reoleiddiol llawn, fel y nodir isod, fel atodiadau. Caiff gwybodaeth am agweddau ar y Mesur na chynhaliwyd asesiadau effaith reoleiddiol llawn ohonynt oherwydd eu heffaith ddibwys ei chynnwys fel atodiad.

Atodiad 1: Trefniadau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau prawf– Cymalau 1 i 9 ac Atodlenni 1 i 2

Atodiad 2: Pwerau carchardai a chanolfannau hyfforddi diogel dan gontract – Cymalau 11 i 15

Sail Resymegol dros Ymyriad gan y Llywodraeth

Gweler yr asesiadau effaith reoleiddiol unigol yn Atodiad 1 ac Atodiad 2 am y sail resymegol dros ymyriad gan y Llywodraeth.

3. YMGYNGHORIAD

Gweler yr asesiadau effaith reoleiddiol unigol yn Atodiad 1 ac Atodiad 2 am wybodaeth am ymgyngoriadau.

4. OPSIYNAU

Gweler yr asesiadau effaith reoleiddiol unigol yn Atodiad 1 ac Atodiad 2 am opsiynau penodol. Yr opsiynau cyffredinol ar gyfer y Mesur yw:

1 **Gwneud dim**. Byddai hyn yn rhwystro'r broses o gyflwyno strwythur cynhwysfawr o gomisiynu gydag elfen o gystadleuaeth ym maes profiannaeth, a byddai'n cyfyngu ar y cyfleoedd i wella gwasanaethau prawf i ddiogelu'r cyhoedd yn well a gostwng aildroseddu. O ganlyniad i hynny, ni fyddem yn gallu gwireddu manteision llawn rhaglen diwygio NOMS.

2 **Gweithredu'n rhannol**. Ni fyddai hyn yn gwireddu holl fanteision y diwygiadau arfaethedig; neu

3 **Gweithredu'n llawn**. Byddai hyn yn ein galluogi i fwrw ati gyda'r agenda diwygio ar gyfer y gwasanaethau prawf a'r gwasanaeth rheoli troseddwyr

Argymhellir y dylid bwrw ati â'r mesurau yn y Mesur yn llawn er mwyn gwireddu'r holl fanteision yr ydym yn ceisio'u cyflawni a helpu'r gwasanaethau cywirol i reoli troseddwyr yn well.

5. MANTEISION

Sectorau busnes yr effeithir arnynt

Gweler yr asesiadau effaith reoleiddiol unigol yn Atodiad 1 ac Atodiad 2 am y sectorau busnes yr effeithir arnynt.

Materion Cyfiawnder a Thegwch

Atodir Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb Hiliol llawn yn Atodiad 3

6. COSTAU

Gweler yr asesiadau effaith reoleiddiol unigol yn Atodiad 1 ac Atodiad 2 am fanylion llawn y costau.

7. PRAWF EFFAITH AR GWMNÏAU BACH

Ni fydd y mesurau yn y Mesur yn cael effaith andwyol ar gwmnïau bach. Gall rhai cyfleoedd busnes ychwanegol gael eu creu i'r sector busnesau bach drwy'r gystadleuaeth gynyddol am wasanaethau.

8. ASESU CYSTADLEUAETH

Gweler yr asesiadau effaith reoleiddiol unigol yn Atodiad 1 ac Atodiad 2 am asesiadau cystadleuaeth.

9. CAMAU GORFODI, COSBI A MONITRO

Gweler yr asesiadau effaith reoleiddiol unigol yn Atodiad 1 ac Atodiad 2 am gamau gorfodi, cosbi a monitro.

10. CYNLLUN GWEITHREDU A CHYFLAWNI

Mae cynlluniau gweithredu a chyflawni ar gyfer y mesurau unigol yn y Mesur wrthi'n cael eu datblygu.

11. ADOLYGIAD AR ÔL GWEITHREDU

Caiff y rhannau o'r ddeddfwriaeth eu hadolygu i sicrhau eu bod yn gwbl effeithiol a darbodus.

12. ARGYMHELLIAD

Argymhellir y dylid dilyn Opsiwn 3, sef gweithredu'r cynigion a nodir yn yr asesiad effaith reoleiddiol hwn yn llawn.

13. DATGANIAD A CHYHOEDDI

Rwyf wedi darllen yr Asesiad Effaith Reoleiddiol ac rwyf yn fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau.

Llofnodwyd

Dyddiad

Gerry Sutcliffe AS

Is-ysgrifennydd Seneddol, y Swyddfa Gartref

Enw cyswllt:

John Hall

NOMS Design / Bill Team

Fry 2nd Floor SE Quarter

2 Marsham Street

London SW1P 4DF

Ffôn: 020 7035 4216

E-bost: JohnA.Hall@homeoffice.gsi.gov.uk

ATODIAD

GWYBODAETH AM DDARPARIAETHAU NAD OES ASESIAD EFFAITH REOLEIDDIOL WEDI'I GYNNAL MEWN PERTHYNAS Â HWY

1. Datgelu gwybodaeth - Cymal 10

Er mwyn i'r sefydliadau amrywiol a fydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio NOMS gydweithio'n effeithlon, mae'n hanfodol bod eu pŵer i rannu data gyda'i gilydd a gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol yn ddiamau. Bydd y darpariaethau yn y Mesur yn gwneud hyn ac yn hyrwyddo ffyrdd gwell o reoli troseddwyr ac effeithlonrwydd o fewn y system cyfiawnder troseddol.

Mae'r darpariaethau hefyd yn cynnwys pwerau o ran rhannu data gydag adrannau eraill o'r llywodraeth at ddibenion ymchwil. Unwaith eto, bydd hyn yn helpu i hyrwyddo system cyfiawnder troseddol fwy effeithiol. Bydd y Mesur yn galluogi sefydliadau i rannu data, yn hytrach na'i wneud yn ofynnol.

2. Troseddau sy'n gysylltiedig â diogelwch mewn carchardai - Cymalau 16-19

Bwriedir i'r mesurau hyn fynd i'r afael â diffygion darpariaethau yn Neddf Carchardai 1952 sy'n creu troseddau o ran cludo eitemau penodol i mewn i garchardai. Dangoswyd nad yw'r darpariaethau hyn yn cosbi'n ddigonol y rheini sy'n dod â chamerâu neu ddyfeisiau recordio sain i mewn i garchardai heb awdurdod. Mae camau gweithredu o'r fath yn bygwth diogelwch, ac yn torri ein rhwymedigaethau i ddiogelu preifatrwydd carcharorion a phobl eraill mewn carchardai. Bydd y darpariaethau yn y Mesur hwn yn diwygio'r Ddeddf Carchardai i'w gwneud yn drosedd i berson fynd â chamera, ffôn symudol neu ddyfais debyg i mewn i garchar heb awdurdod, neu fynd ag eitemau gan gynnwys lluniau o garchar neu berson mewn carchar, recordiadau sain neu wybodaeth am garcharor o garchar. Bydd y darpariaethau hyn hefyd yn gwahaniaethu'n gliriach rhwng y troseddau a'r cosbau am gymryd eitemau eraill a waherddir i mewn i garchar.

Bydd effaith y darpariaethau hyn yn isel (a) oherwydd disgwylir na fydd mwy na 10 o erlyniadau bob blwyddyn; a (b) oherwydd na fydd y darpariaethau hyn yn gosod unrhyw faich ychwanegol sylweddol ar staff rheng flaen.

3. Dileu'r gofyniad i benodi swyddog meddygol ac ati - Cymal 20

Mae defnydd parhaus y term hwn mewn deddfwriaeth sylfaenol yn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio o hyd mewn Rheolau Carchardai deddfwriaeth eilaidd, a chanllawiau'r Gwasanaeth Carchardai, gan adlewyrchu arferion sydd wedi hen ddyddio ac nad ydynt yn ystyried y newidiadau sylweddol a welwyd yn y maes hwn. Yn y gorffennol, mae wedi gweithredu fel rhwystr i gyflwyno newid ymarferol a diwylliannol, ac yn y presennol mae'n dyblygu deddfwriaeth gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cywirol yn y maes hwn. Ni fydd gan y newid deddfwriaethol ynddo'i hun unrhyw oblygiadau ymarferol i feddygon a gyflogir gan garchardai ar hyn o bryd. Wrth gwrs, mae goblygiadau adnoddau dynol i'r broses o drosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r GIG ac mae'r rhain yn cael eu trafod gyda rhanddeiliaid perthnasol, ond ni fydd dileu'r darpariaethau swyddog meddygol yn y Mesur yn arwain at unrhyw gymhlethdodau ychwanegol.

4. Achredu rhaglenni at ddibenion gofynion y rhaglen

Mae'r mesur hwn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiddymu statws NDBP Panel Achredu'r Gwasanaethau Cywirol (CSAP) annibynnol a gosod y ddyletswydd i wneud y trefniadau hyn ar yr Ysgrifennydd Gwladol. Ni fydd gweithredu'r broses achredu yn fewnol yn gosod galwadau ychwanegol ar staff, gan gynnwys y rheini mewn swyddi rheng flaen yn y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf, gan na ddisgwylir newidiadau yn y dulliau o weithio. Symudwyd nawdd CSAP i NOMS ar ddechrau 2005/6, lle y lleolir ei ysgrifenyddiaeth bellach.

5. Swyddogaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid - Cymal 23

Mae'r broses o leoli pobl ifanc yn y ddalfa yn swyddogaeth a rennir ar hyn o bryd. Lleolir hyfforddeion Gorchmynion Cadw a Hyfforddi (DTO) gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a lleolir troseddwyr adran 90 a 91 gan y Gwasanaeth Carchardai. Er mwyn cyfuno'r ddwy rôl, a sicrhau manteision o ran rheoli'r ystâd ddiogel ar gyfer troseddwyr ifanc, mae angen diwygio pŵer lleoli adran 90/91 (sydd wedi'i gynnwys yn adran 92 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000) i alluogi'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w arfer.

6. Gorchmynion cadw a hyfforddi: rhyddhau'n gynnar - Cymal 24

Yn amodol ar feini prawf penodol (sy'n gysylltiedig ag ymddygiad derbyniol yn y ddalfa yn bennaf), gellir rhyddhau hyfforddeion gorchmynion cadw a hyfforddi sy'n bwrw gorchmynion tymor canolig neu hirdymor fis neu ddeufis yn gynnar. Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn ei gwneud yn ofynnol i ryddhau hyfforddeion yn gynnar *yn union* fis neu ddeufis cyn y dyddiad rhyddhau arferol. Os bydd y dyddiad hwnnw yn mynd heibio - er enghraifft oherwydd oedi gweinyddol -rhaid i'r hyfforddai aros yn y ddalfa tan ddiwedd y tymor. Byddai'r cymal hwn yn caniatáu rhyddhau hyfforddai *yn agos at* fis neu ddeufis cyn y dyddiad rhyddhau arferol. Dylai fod mantais (bach iawn) o ran lleihau'r niferoedd yn y ddalfa.

7. Llety ar gyfer bwrw cyfnod cadw a hyfforddi - Cymal 25

Ar hyn o bryd, gellir anfon troseddwyr ifanc â gorchymyn cadw a hyfforddi i amrywiaeth o sefydliadau, a ddiffinnir fel "llety diogel". Mae "llety diogel" yn cynnwys sefydliadau troseddwyr ifanc - yn cynnwys sefydliadau agored i droseddwyr ifanc - canolfannau hyfforddi diogel a chartrefi plant diogel awdurdod lleol. Nid yw'n cynnwys cartref awdurdod lleol "agored". Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid o'r farn y gallai hyfforddeion penodol gael eu lleoli'n briodol mewn llety o'r fath. Byddai hynny'n sicrhau manteision o ran rheoli'r ystâd ddiogel a'r cyfle i arbed costau, yn ogystal â chyfateb yr hyfforddai â'r sefydliad yn well. Bydd y ddarpariaeth yn disodli'r diffiniad presennol o "lety diogel" gyda chategori newydd o "lety cadw i ieuenctid". Byddai'r pŵer lleoli estynedig hwn yn dileu anghysondeb: ar hyn o bryd gellir lleoli pobl ifanc a ddedfrydir o dan adran 90 neu 91 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 - h.y. y rhai sydd wedi cyflawni troseddau mwy difrifol - mewn amrywiaeth ehangach o lety na hyfforddeion â gorchmynion cadw a hyfforddi.

Rhaid cadw pobl ifanc sy'n bwrw gorchymyn cadw a hyfforddi mewn "llety diogel", a ddiffinnir drwy restr yn adran 107 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000. Mae'r rhestr yn cynnwys sefydliadau troseddwyr ifanc (a chanolfannau hyfforddi diogel, ac ati) ond nid carchardai. O hyn ymlaen, caiff troseddwyr 18 oed a throsodd eu cadw mewn carchar yn hytrach na sefydliad troseddwyr ifanc. Mae hynny'n gadael anhawster o ran pobl ifanc sy'n bwrw gorchymyn cadw a hyfforddi sy'n *troi'n* 18 oed ac nad ydynt wedi bwrw rhan sylweddol o'u dedfryd o hyd. Ar hyn o bryd, gellir eu symud i sefydliadau troseddwyr ifanc "oedolion" (a gynhwysir yn rhestr adran 107). Yn y dyfodol, byddai'n rhaid iddynt fynd i garchar (nas cynhwysir yn y rhestr). Byddai person ifanc a oedd yn 17 oed pan gafodd ei gollfarnu ond yn 18 oed adeg ei ddedfrydu, a dderbyniodd orchymyn cadw a hyfforddi 24 mis, yn 19 oed adeg ei ryddhau. Nid yw'n dderbyniol i gadw rhywun o'r oedran hwnnw yn yr

ystâd troseddwyr ifanc. Mae angen y ddarpariaeth newydd i ganiatáu i'r bobl ifanc hyn gael eu symud i garchar.

8. Troi dedfryd gadw yn ddedfryd o garchar - Cymal 26

Ar hyn o bryd, yr isafswm oedran y gall person gael dedfryd o garchar yw 21 oed. Mae Adran 61 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau'r Llys (nad yw wedi dod i rym eto) yn ei ostwng i 18 oed. Mae angen diwygio'r pŵer cyfredol i droi dedfryd gadw yn ddedfryd o garchar pan fo person ifanc yn cyrraedd 21 oed er mwyn ystyried y gostyngiad hwnnw o ran yr isafswm oedran. Diwygiad canlyniadol yw hwn yn syml. Ni chredwn fod ganddo unrhyw oblygiadau o ran amrywiaeth.

9. Trefniadau cludo - Cymal 27

Darperir ar gyfer cludo troseddwyr ifanc rhwng llysoedd, sefydliadau, ysbytai a gorsafoedd heddlu mewn dau ddarn o ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae rhai achosion o drosglwyddo (y rhai rhwng sefydliadau troseddwyr ifanc a chanolfannau hyfforddi diogel yn bennaf) na chânt eu cwmpasu gan y naill na'r llall. Fodd bynnag, mae'r cyfryw drosglwyddiadau yn digwydd ac mae angen y cymal hwn i'w cynnwys yn ddeddfwriaethol. Nid oes unrhyw effaith reoleiddiol o ganlyniad i'r ddarpariaeth hon.

ATODIAD 1

1. TEITL Y CYNNIG

Trefniadau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau prawf.

2. DIBEN AC EFFAITH FWRIADEDIG

Amcan

Yr amcan yw galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gomisiynu gwasanaethau prawf gan amrywiaeth o ddarparwyr yn y sector cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector er mwyn gwella perfformiad yn gyffredinol a chyfrannu at ostwng aildroseddu a diogelu'r cyhoedd yn well.

Cefndir

Ym mis Rhagfyr 2003, cyhoeddodd yr Arglwydd Carter ei adroddiad, "Managing Offenders, Reducing Crime", a argymhellodd y dylid sefydlu Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) gyda'r nod o ostwng aildroseddu drwy reoli troseddwyr yn fwy cyson ac yn fwy effeithiol. Un o argymhellion allweddol yr adroddiad oedd y gellid darparu gwasanaethau yn fwy effeithiol drwy fwy o gystadleuaeth, defnyddio darparwyr y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf o bob rhan o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, a thrwy wahanu rheolaeth linell darparwyr sector cyhoeddus a chomisiynu gwasanaethau.

Ym mis Ionawr 2004, cyhoeddodd y Llywodraeth ei hymateb, "Reducing Crime, Changing Lives", a dderbyniodd casgliadau'r Arglwydd Carter yn fras, a sefydlwyd NOMS ym mis Mehefin 2004.

Ers hynny, rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran gwella perfformiad yn y gwasanaeth prawf ac o ran sefydlu'r strwythurau comisiynu sydd eu hangen ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Mae hyn yn rhoi sylfaen gadarn i adeiladu arni.

Fodd bynnag, mae angen i ni wneud mwy. Mae gan NOMS darged i ostwng y gyfradd aildroseddu 5% erbyn 2008 a 10% erbyn 2010. Mae hon yn darged uchelgeisiol. Er mwyn cyflawni'r targed hwn, mae angen i ni gyflymu'r broses newid er mwyn gwireddu gweledigaeth wreiddiol Carter. Yn benodol, mae angen i ni ddefnyddio dynamiaeth cymaint o dalentau â phosibl o'r sectorau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus er mwyn sicrhau mai dim ond y rheini sy'n dangos y gallant wneud y gorau sy'n darparu gwasanaethau i droseddwyr.

Ailadroddwyd bwriad y Llywodraeth i gyflwyno mwy o amrywiaeth o ran darpariaeth yn "A Five Year Strategy for Protecting the Public and Reducing Re-offending" (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2006) ac yn "Rebalancing the criminal justice system in favour of the law-abiding majority" (Gorffennaf 2006). Ym mis Awst 2006, cyhoeddodd y Llywodraeth "Improving Prison and Probation Services: Public Value Partnerships", a amlinellodd y weledigaeth o ran yr elfen o gystadleuaeth ac a nododd gyflymder a graddfa'r newid a ragwelir.

Sail Resymegol dros Ymyriad gan y Llywodraeth

O dan y ddeddfwriaeth gyfredol, dim ond y bwrdd prawf lleol sydd â'r ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau prawf. Yn wahanol i wasanaethau carcharol, ni all gwasanaethau prawf gael eu darparu gan unrhyw sefydliad arall ar hyn o bryd oni chânt eu his-gontractio'n uniongyrchol gan y byrddau prawf eu hunain. Mae hyn yn gymwys waeth pa mor dda mae'r bwrdd lleol ei hun yn perfformio neu pa mor briodol mae ffiniau daearyddol yr ardal honno ar gyfer y gwasanaeth dan sylw.

Mae angen fframwaith newydd sy'n ein galluogi i weithio mewn partneriaethau cryfach a mwy creadigol gydag amrywiaeth eang o sefydliadau eraill. Mae angen i gomisiynwyr adeiladu ystod gymhleth o bartneriaethau er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ateb y galw, a defnyddio sgiliau amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n cydweithio i gyflawni nodau cyffredin, pob un ohonynt yn manteisio ar eu cryfderau. Mae angen economi gymysg o ddarparwyr. Ein nod yw defnyddio talent cronfa amrywiol o ddarparwyr sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, pob un ohonynt â'u sgiliau a'u harbenigedd eu hunain.

Mae'r Llywodraeth nawr yn cynnig deddfu yn y Mesur Rheoli Troseddwyr:

1 i roi'r ddyletswydd statudol i wneud trefniadau gydag eraill i ddarparu gwasanaethau prawf i'r Ysgrifennydd Gwladol, er mwyn ei alluogi i gomisiynu gwasanaethau gan ddarparwyr yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector; a

2 i ddiddymu byrddau prawf lleol a sefydlu ymddiriedolaethau prawf, fel y darparwr sector cyhoeddus y gellir ymrwymo i gontract gydag ef.

3. YMGYNGHORIAD

Nodwyd yr achos dros newid am y tro cyntaf yn "Restructuring Probation to Reduce Re-offending" ym mis Hydref 2005. Cyhoeddwyd yr ymatebion, ynghyd â chynigion y Llywodraeth ar gyfer datblygu'r polisi, ym mis Mawrth 2006 yn "Working with Probation to Protect the Public and Reduce Re-offending". Datgelodd yr ymgynghoriad gefnogaeth gyffredinol i gynnwys darparwyr amgen a rhywfaint o gefnogaeth i gomisiynu fel ffordd o wella safonau. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch y cyfiawnhad dros newid, a graddfa ac amseru'r newid hwnnw.

Mae'r Asesiad Effaith Reoleiddiol hwn, ynghyd ag "Improving Prison and Probation Services: Public Value Partnerships", yn nodi cyflymder a graddfa'r newid a ragwelir. Rydym yn bwriadu symud o fyrddau i ymddiriedolaethau mewn ffordd fesuredig a graddol, gan ddefnyddio meini prawf clir a gwrthrychol (y byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid yn eu cylch) ar gyfer penderfynu pa fyrddau fydd yn symud a phryd. Yn amodol ar gymeradwyaeth seneddol, rhagwelwn y caiff yr ymddiriedolaethau cyntaf eu sefydlu, a'r contractau cyntaf eu dyfarnu, ym mis Ebrill 2008.

4. OPSIYNAU

Mae'r Asesiad Effaith Reoleiddiol hwn yn rhoi asesiad o fanteision cyffredinol cynigion y Llywodraeth i gyflwyno elfen o gystadleuaeth i'r gwasanaethau prawf yn llawn yn erbyn opsiwn "dim deddfwriaeth". Disgwylir i unrhyw sefydliad sector cyhoeddus wella ei berfformiad blwyddyn ar ôl blwyddyn fel mater o drefn. Tybir hyn o dan yr Asesiad Effaith Reoleiddiol hwn, ac felly caiff ei hepgor o'r cyfrifiadau, sy'n cymharu'n syml effaith ychwanegol elfen gystadleuol lawn. Er y dangosir effaith y broses o gyflwyno amgylchedd hollol gystadleuol - lle mae pob gwasanaeth yn destun cystadleuaeth fewnol ac allanol - yn nhermau ariannol, dim ond er mwyn dangos sut mae ein cynigion yn cymharu â'r opsiwn o gadw'r fframwaith deddfwriaethol presennol y dangosir hyn. Rhagwelir y caiff yr adnoddau a ryddheir drwy welliannau mewn arloesedd ac effeithlonrwydd o ganlyniad i gyflwyno amgylchedd hollol gystadleuol eu hailfuddsoddi er mwyn gwella'r gwasanaeth.

Bydd y broses o gyflwyno amgylchedd yn ysgogi darparu gwasanaethau rheoli troseddwyr ac ymyriadau yn fwy effeithlon ac effeithiol, gan roi gwerth gwell am arian. Bydd yr elfen o gystadleuaeth yn annog ymagweddau arloesol tuag at alluogi amrywiaeth eang o ddarparwyr i ddarparu gwasanaethau. Bydd hyn yn galluogi'r broses o gomisiynu gwasanaethau ar draws ffiniau daearyddol ac yn hwyluso gwaith ehangach ar draws gwahanol sefydliadau.

Yn gryno, y ddau opsiwn sy'n cael eu hasesu yn yr Asesiad Effaith Reoleiddiol hwn yw:

- ***Opsiwn 1: Peidio â chyflwyno newid mewn deddfwriaeth****, lle na chaiff deddfwriaeth newydd ei chyflwyno a byrddau prawf yw'r unig ddarparwyr statudol o ran gwasanaethau prawf o hyd a dim ond drwy'r byrddau presennol y gellir cael gafael ar ddarparwyr amgen;*

- ***Opsiwn 2: Dileu'r cyfyngiad statudol ar ddarparu gwasanaethau prawf,*** sy'n creu'r potensial i agor holl fusnes cyfredol byrddau prawf a holl fusnes byrddau prawf yn y dyfodol i gystadleuaeth.

5. MANTEISION A CHOSTAU

Ar hyn o bryd, mae NOMS wrthi'n datblygu'r Rhwydwaith Darparwyr Cenedlaethol, cyfeiriadur canolog o ddarparwyr a fydd yn cyflymu'r broses dendro ac yn lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â hi. Bydd hyn yn dod â manteision ac arbedion i waith comisiynwyr waeth pa un a gaiff y ddeddfwriaeth ei chyflwyno ai peidio. O ganlyniad, penderfynwyd peidio â chynnwys y manteision hyn yn y senarios sydd wedi'u modelu.

Opsiwn 1: Peidio â chyflwyno newid mewn deddfwriaeth.

O dan y ddeddfwriaeth gyfredol, dim ond Byrddau Prawf sydd â dyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau prawf, a heb newid mewn deddfwriaeth, dim ond drwy'r Byrddau Prawf presennol y byddai modd cael gafael ar ddarparwyr amgen o hyd. Yn y sefyllfa hon, mae darparwyr eraill yn parhau fel is-gontractwyr yn unig, pan allent hwy eu hunain fod yn brif gontractwyr gyda'r comisiynydd, ac nid yw'n cynnig ffordd o fynd i'r afael â bwrdd prawf sy'n methu. O dan y sefyllfa barhaus hon, rhagwelir hefyd y byddai contractau aml-ranbarthol cyfyngedig, a fyddai'n rhwystro'r gallu i gomisiynu ar draws ffiniau sefydliadol a daearyddol ac yn lleihau'r potensial ar gyfer arbedion maint a allai ddeillio o gontractau mwy o faint.

Byrddau prawf unigol fyddai'n penderfynu ar y gwasanaethau a maint y gwasanaethau i'w darparu drwy weithio mewn partneriaeth o hyd, mewn ymgynghoriad â'r comisiynydd, tra'n cydnabod targedau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth drwy is-gontractio. Fodd bynnag, gall is-gontractio gwasanaethau gan Fyrddau unigol fod yn fanteisiol ar lefel leol, a phan fydd ymddiriedolaethau yn weithredol efallai y bydd trefniadau o'r fath yn parhau, ond gyda'r comisiynydd, a all benderfynu a yw'r fantais leol wedi'i halinio ag unrhyw bersbectifau rhanbarthol/cenedlaethol, yn pennu mwy o gyfeiriad. Wedi dweud hynny, tybir y bydd y cynnydd mewn targedau gweithio mewn partneriaeth sydd wedi'u modelu yn yr opsiwn hwn yn arwain at fwy o weithio mewn partneriaeth gan Fyrddau Prawf a chynnydd cyffredinol yn lefel y manteision a wireddir.

Yn 2005-06 cafodd tua £12.5m[1]o wasanaethau troseddwyr ym maes profiannaeth eu his-gontractio sy'n cyfateb â thua 2.5% o wariant y Bwrdd Prawf ar wasanaethau prawf. Nodir y lefel o weithio mewn partneriaeth ar ddiwedd y flwyddyn wedi'i modelu yn yr opsiwn hwn yn y tabl isod.

Tabl 1	Tybiaethau o ran graddau gweithio mewn partneriaeth
2005-06	2.5% o werth gwasanaethau (£12.5m)
2006-07	5% o werth gwasanaethau (£25m)
2007-08	10.0% o werth gwasanaethau (£50m)

Gan dybio arbedion effeithlonrwydd o tua 3.5% i 8.5% ac o ystyried costau tendro a rheoli contractau, amcangyfrifir y byddai'r arbedion blynyddol ar gyfartaledd drwy gynyddu is-gontractio i sefydliadau partner tua £280k ar gyfradd arbed o 3.5% a thua £2m y flwyddyn ar gyfradd arbed o 8.5%.

Amcangyfrif bod cost is-gontractio ar y lefel hon o fusnes gyfwerth â 4% o werth contract ac amcangyfrif bod cost rheoli'r contractau hyn yn 1.2% o werth contract. Wedi'i ddisgowntio dros 25 mlynedd i ganiatáu ar gyfer chwyddiant, byddai gan yr opsiwn hwn werth cyfredol net cadarnhaol (h.y. arbedion net) o £4m ar gyfradd

[1] *Cyfanswm gwerth amcangyfrifedig busnes prawf a gaiff ei is-gontractio yw £12.5m (2005/06)- mae hyn yn cynnwys hyfforddiant, gweithredu rhai safleoedd a gymeradwywyd a darparu cyfran o'r ymyriadau.*

arbed o 3.5% a £33m ar gyfradd arbed o 8.5% (mynegir y ffigurau yn ôl prisiau 2006-07).

Opsiwn 2: Trosglwyddo'r cyfrifoldeb statudol am ddarparu gwasanaethau prawf o Fyrddau Prawf i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Bydd y newidiadau yn helpu NOMS i ostwng aildroseddu a diogelu'r cyhoedd yn well drwy:

- gael mwy o fudd o adnoddau presennol a rhyddhau adnoddau er mwyn eu hailfuddsoddi;
- galluogi comisiynwyr i ofyn am fanylebau gwasanaeth, gwaith cydgysylltiedig a darpariaeth ddi-dor ar draws ffiniau sefydliadol y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf;
- galluogi darparwyr â ffyrdd newydd a gwell o wneud pethau, yn cynnwys synergeddau â'u gweithrediadau presennol, i gynnig sut y byddent yn darparu gwasanaethau.

Mae tystiolaeth o'r sector carcharol dros y degawd diwethaf yn dangos bod cyflwyno cystadleuaeth o ran gweithredu carchardai a gwasanaethau cysylltiedig wedi cyfrannu at gynnydd mewn effeithlonrwydd. Mae'r cyflwyniad hwn - wedi'i alinio ag arweinyddiaeth sefydliadol gref - wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd o hyd at 8.5%. Er nad yw'n bosibl rhagweld yn union beth fydd yn digwydd, credwn y gall cyflwyno comisiynu ac elfen gystadleuol ar gyfer y gwasanaethau prawf efelychu'r gwelliannau a gyflawnwyd yn y sector carcharol.

Er ein bod yn cydnabod bod gwahaniaethau rhwng y sector carcharol a'r sector prawf, y sector carcharol yw'r cymharydd gorau i'w ddefnyddio wrth fodelu effaith cystadleuaeth lawn ar wasanaethau prawf. Ystyrir bod y ffigur o 8.5% yn rhesymol ar gyfer terfyn uchaf y cynilion disgwyliedig ac o ganlyniad mae amrywiaeth o gyfraddau arbed, gyda therfyn uchaf o 8.5%, wedi'u defnyddio i ddangos effaith defnyddio'r ddeddfwriaeth.

Gellir amcangyfrif lefel yr arbedion a gynhyrchir drwy ddewis gwahanol agweddau ar wasanaethau prawf - o ddarparu ymyriadau penodol i redeg y bwrdd prawf cyfan - ac yna modelu'r rhain ar raglen dreigl o gystadleuaeth.

Gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfraddau arbed yn dechrau ar 3.5% o werth y busnes y mae'r gystadleuaeth yn ymwneud ag ef a phennu terfyn arbedion uchaf o 8.5% rhagwelir y bydd arbedion blynyddol o dros £2m ar 3.5% a thua £13m ar 8.5%. Mae'r ffigurau hyn yn gymwys unwaith y bydd rhaglen yr elfen o gystadleuaeth wedi'i sefydlu.

Drwy gymhwyso'r cyfraddau arbed hyn i'r rhaglen dros gyfnod o 25 mlynedd a disgowntio er mwyn caniatáu am chwyddiant, cynhyrchir gwerth cyfredol net cadarnhaol o £35m ar gyfradd arbed o 3.5% ac, ar 8.5%, mae'r gwerth cyfredol net yn codi i £212m.

Drwy gyflwyno system gomisiynu a chystadleuaeth ar gyfer darparu gwasanaethau prawf eir i'r afael â'r costau canlynol: cynnal ymarferion caffael; rheoli contractau; cynigion mewnol; a chydymffurfiaeth fewnol â chontractau. Amcangyfrif y bydd y rhain gyfwerth ag 1% o werth contractau, 1.2% o werth contractau, 4.0% o gyfanswm y ceisiadau a 0.5% y flwyddyn yn ôl eu trefn.

Diogelu'r cyhoedd drwy ostwng aildroseddu

Mae'n amlwg na all darparwyr fanteisio i'r eithaf ar eu cryfderau hyd yma, gan fod Byrddau Prawf yn meddu ar gyfran o 97.5% o'r farchnad. O ganlyniad i hynny, nid ydym yn cael budd o'r manteision a'r cyfleoedd a fyddai'n deillio o weithio gyda sbectrwm llawn o ddarparwyr o ran darparu gwasanaethau cywirol. Mae nifer fawr o ddarparwyr y tu allan i'r sector cyhoeddus eisoes yn gweithio gyda throseddwyr, fel rheolwyr carchardai sector preifat, gwasanaethau cludo carcharorion a monitro troseddwyr yn electronig yn y gymuned. Mewn mannau eraill, maent yn darparu gwasanaethau arbenigol - er enghraifft, gwasanaethau caplaniaeth cymunedol. Yn aml, mewn meysydd eraill, ac yn arbennig ym maes profiannaeth, ychydig iawn o ddarpariaeth a welir gan y sector preifat a'r trydydd sector, ac efallai mai prin fydd y gwasanaethau y byddant yn cael y cyfle i fod yn gysylltiedig â hwy. Credwn fod potensial i wella gwasanaethau drwy ddefnyddio amrywiaeth ehangach o ddarparwyr, gyda llawer mwy o fewnbwn gan ddarparwyr cyfredol, er mwyn darparu'r amrywiaeth eang o wasanaethau ar gyfer troseddwyr ag anghenion amrywiol. Mewn amgylchedd lle ceir cystadleuaeth lawn, disgwyliwn y bydd darparwyr yn edrych yn feirniadol arnynt hwy eu hunain er mwyn adolygu'r hyn y gellir ei wneud yn well drwy weithio mewn partneriaeth. Rydym am weld pob darparwr yn gwneud y mwyaf o'u cryfderau. Wrth wneud hyn, disgwyliwn i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu wella.

Yn ogystal â'r manteision ariannol sy'n deillio o'r elfen o gystadleuaeth, daeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i'r casgliad bod cyflwyno cystadleuaeth ar gyfer

darparu gwasanaethau carcharol wedi cael effaith gadarnhaol ar yr agenda parch sydd â'r nod o drin troseddwyr â pharch mewn amgylchedd gofalgar a diogel.

> "...Mae cystadleuaeth wedi bod yn bwysig yn y system garchardai o ran gwella'r broses o reoli carcharorion ac amodau carcharorion...Un o ddatblygiadau arloesol allweddol y sector preifat yw'r gwaith o hyrwyddo cydberthynas fwy adeiladol rhwng staff a charcharorion...Mae'r cwmnïau preifat sy'n gysylltiedig â menter cyllid preifat (PFI) o'r farn mai un o brif ddatblygiadau arloesol y sector preifat yw agwedd y staff tuag at garcharorion. Cafodd y dybiaeth hon ei hategu gan ein harolwg carcharorion a ganfu fod carcharorion a gadwyd mewn carchardai PFI o'r farn eu bod yn cael mwy o barch a'u bod yn cael eu trin yn well na charcharorion mewn carchardai cyhoeddus. Mae'r Sefydliad Troseddeg (Prifysgol Caergrawnt) wedi gwneud gwaith arloesol yn y maes hwn ac yn cydweithio â'r Gwasanaeth Carchardai i fesur yr agwedd hon ar ansawdd bywyd mewn carchardai. Yn ein barn ni, mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol a fydd yn helpu'r Gwasanaeth Carchardai i ddatblygu'r agenda parch."[2]

Yn ogystal, dengys tystiolaeth fod cystadleuaeth wedi helpu i ysgogi gwell perfformiad ar draws llawer o sefydliadau sector cyhoeddus a disgwylir gweld effaith debyg yn sgîl cyflwyno cystadleuaeth lawn ar draws y gwasanaethau prawf. Wedi dweud hynny, oherwydd anawsterau o ran mesur yr effaith hon, nid yw'r manteision ychwanegol posibl sy'n deillio o'r perfformiad gwell hwn wedi'u modelu.

Esbonnir y tybiaethau a wnaethpwyd wrth fodelu'r costau a'r manteision yn y nodyn technegol.

6. PRAWF EFFAITH AR GWMNÏAU BACH

Nid yw'r mesur yn cael effaith andwyol ar fusnesau bach. Gall rhai cyfleoedd busnes ychwanegol gael eu creu i'r sector busnesau bach drwy'r gystadleuaeth gynyddol am wasanaethau.

7. ASESU'R GYSTADLEUAETH

Mae marchnad sector preifat eisoes yn bodoli ar gyfer darparu gwasanaethau carcharol (£227m) a gwasanaethau cludo carcharorion (£135m). Disgwylir y bydd

[2] *Cyfieithiad o Swyddfa Archwilio Genedlaethol: The Operational Performance of PFI Prisons, 2003*

gan ddarparwyr sector preifat a sector gwirfoddol ddiddordeb mewn ehangu'r gwaith a wnânt mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Prawf ac y byddant yn ymateb i wahoddiadau i dendro gan NOMS. Yn wir, mae nifer fawr o sefydliadau sector gwirfoddol eisoes yn gweithio gyda'r sector cyhoeddus a'r sector preifat i ddarparu gwasanaethau. Ar hyn o bryd, mae dros 900 o sefydliadau gwahanol yn gweithio gyda throseddwyr, gyda thros 600 o brosiectau yn gweithio gyda'r gwasanaethau prawf yn y gymuned.

8. CAMAU GORFODI, COSBI A MONITRO

Caiff llwyddiant yr elfen gystadleuol o ran ei chyfraniad at wella perfformiad ei fonitro rheolaidd gan Fwrdd Gweithredol Grŵp y Swyddfa Gartref ac Uned Cyflenwi'r Prif Weinidog. Caiff yr arbedion y gellir eu cyfnewid am arian parod a'r arbedion na ellir eu cyfnewid am arian parod yn sgîl cyflwyno cystadleuaeth eu cynnwys yn strategaeth Gwerth am Arian NOMS a gaiff ei monitro gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

9. ADOLYGIAD AR ÔL GWEITHREDU

Nodir costau rhaglen enghreifftiol o gystadlu am wasanaethau prawf uchod. Bydd y rhaglen hon yn destun adolygiad ar ôl cwblhau pob blwyddyn o gystadleuaeth yn dilyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth, gyda'r adolygiad cyntaf yn 2009-10 mewn perthynas â chylch 2008-09.

10. CRYNODEB AC ARGYMHELLIAD

Gellir sicrhau rhai gwelliannau o ran perfformiad a chostau (gydag arbedion costau i'w hailfuddsoddi mewn darparu gwasanaethau) drwy ddylanwadu ar Fyrddau Prawf i wneud mwy o ddefnydd o ddarparwyr allanol o ran darparu gwasanaethau. Ond ni fydd yn bosibl cyrraedd targed y Llywodraeth ar ostwng aildroseddu heb wella perfformiad yn sylweddol o ran darparu gwasanaethau i droseddwyr, yn cynnwys gwasanaethau prawf. Un o'r dulliau o wneud hyn yw agor y sbectrwm llawn o wasanaethau a ddarperir o fewn NOMS i ystod lawn o ddarparwyr. Bydd hyn yn rhoi

mwy o ddewis o ddarparwyr i gomisiynwyr, a'r rhyddid i symud gwasanaethau o ddarparwyr nad ydynt yn perfformio gystal. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen dileu'r ddyletswydd statudol sy'n nodi mai dim ond Byrddau Prawf a all ddarparu gwasanaethau prawf. Mae'r manteision posibl o ran perfformiad a chostau yn sgîl cynyddu rhyddid y comisiynwyr i brynu gan y darparwyr gorau hyd at £288m (ar sail costau wedi'u disgowntio) dros y 25 mlynedd nesaf a bydd hefyd yn cyflawni nod y Llywodraeth o gynyddu cyfranogiad y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol o ran darparu gwasanaethau NOMS.

ATODIAD - NODYN TECHNEGOL TYBIAETHAU O RAN COST

COSTAU A MANTEISION

Opsiwn 1: Gwneud Dim

Dim ond yn ôl disgresiwn byrddau prawf unigol, y byddai angen iddynt wneud penderfyniad ynghylch rhoi gwasanaethau dan gontract, y byddai'n bosibl cael gafael ar ddarparwyr amgen. Ar hyn o bryd, caiff tua £12.5m o fusnes prawf ei roi dan gontract. Mae'r busnes hwn yn cynnwys contractau hyfforddi, darparu rhai ymyriadau a gweithredu rhai safleoedd cymeradwy. Cafwyd y ffigurau hyn o'r ffurflenni costau gweithgareddau a gynhyrchwyd gan y bwrdd prawf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2005-06. Nid oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol unrhyw bŵer i orfodi byrddau i is-gontractio na phrofi gwasanaethau craidd ar y farchnad. Heb ymyriad uniongyrchol, teimlir bod codi hyn i £50m erbyn 2007-08 yn realistig o ran sicrhau'r lefel uchaf mewn perthynas ag ehangu'r gwasanaethau dan gontract. Byddai angen rhoi meysydd sylweddol o weithgarwch, y mae fy staff prawf craidd yn ymgymryd â hwy ar hyn o bryd neu'n bwriadu ymgymryd â hwy, dan gontract er mwyn darparu mwy na £50m o wasanaethau dan gontract ac fe'i hystyrir yn annhebygol y byddai Byrddau Prawf yn fodlon cychwyn ar broses ddiwygio fawr mewn perthynas â strwythurau staffio y cytunwyd arnynt yn ddiweddar.

Gan dybio bod arbedion effeithlonrwydd rhwng 3.5% a 8.5%, byddai'r arbedion blynyddol amcangyfrifedig yn sgîl rhoi £37.5m arall o fusnes prawf dan gontract rhwng £0.3m a £2m y flwyddyn. Y sail dros fodelu tybiaeth o fewn yr ystod hon yw'r profiad a gafwyd o roi gwasanaethau dan gontract yn y Gwasanaeth Carchardai. Cyflawnwyd yr amcangyfrif uchaf o 8.5% o effeithlonrwydd blynyddol gan nifer o sefydliadau mawr, lle roedd mwy o le i sicrhau effeithlonrwydd. 3.0% oedd yr isafswm lefel o welliant mewn effeithlonrwydd a gyflawnwyd drwy roi gweithgarwch y Gwasanaeth Carchardai dan gontract. Mae cyfran uchel o gostau'r Gwasanaeth Carchardai yn gostau seilwaith sefydlog ac mae angen dros £450m o gostau adnoddau i gynnal a chadw'r ystâd a thalu'r taliadau cyfalaf arni. Mae gan y gwasanaeth prawf lefelau cyfatebol uwch o ran costau sy'n gysylltiedig â staff ac felly mae'r lle i sicrhau effeithlonrwydd tymor canolig yn debyg o leiaf ac yn uwch o lawer, yn fwy na thebyg, nag yn y Gwasanaeth Carchardai lle mae natur yr ystâd yn cyfyngu'n llym ar ailstrwythuro. Felly, defnyddiwyd amcangyfrif is o 3.5%.

Amcangyfrifir mai isafswm cost rhoi'r lefel hon o fusnes dan gontract yw £20k fesul bwrdd, sef cyfanswm o £840k. Amcangyfrifwyd y ffigur hwn yn ôl costau llawn un aelod o staff am bedwar mis yn ysgrifennu manylebau tendro, yn adolygu ceisiadau ac yn gosod contractau. Amcangyfrifir mai isafswm cost rheoli'r contractau hyn yw 0.9% o werth y contract. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar gostau rheoli contractau ar gyfartaledd ar gyfer y prif gontractau (yn cynnwys Cludo Carcharorion a Gwasanaethau Cadwraeth a'r contractau monitro electronig amrywiol) sydd eisoes wedi'u gosod o fewn maes NOMS ac mae'n cynnwys costau staff a gorbenion cysylltiedig staff rheoli contractau a gyflogir yn uniongyrchol.

Opsiwn 2: Trosglwyddo'r cyfrifoldeb statudol am ddarparu gwasanaethau prawf o fyrddau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Disgwylir i fanteision godi fel a ganlyn:

- helpu NOMS i gyflawni ei nod o ostwng aildroseddu, drwy ddefnyddio adnoddau presennol yn fwy effeithiol a rhyddhau adnoddau er mwyn eu hailfuddsoddi, drwy alluogi Rheolwyr Troseddwyr Rhanbarthol, fel comisiynwyr, i fynnu (mewn manylebau gwasanaeth) ar ymagweddau cyffredin a phroses gyflawni ddi-dor ar draws ffiniau sefydliadol y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf, a thrwy alluogi darparwyr sy'n defnyddio ffyrdd newydd a gwell o wneud pethau, yn cynnwys synergeddau â'u gweithrediadau presennol, i ddarparu gwasanaethau.

Gellir gweld tystiolaeth o rai o'r manteision hyn o'r enghraifft o gystadleuaeth ar gyfer gweithredu carchardai dros y degawd diwethaf. Gellir nodi costau ar gyfer rhai manteision, ond ni ellir nodi costau ar gyfer rhai eraill.

Gostwng Aildroseddu

Ar y cyd â chyflwyno proses rheoli troseddwyr o fewn NOMS, mae creu model prynwr/darparwr a chyflwyno grymoedd cystadleuol cynyddol i'r farchnad ar gyfer darparu gwasanaeth cywirol yn fesur galluogi craidd sydd wedi'i gynllunio i sicrhau gostyngiad arall mewn troseddau drwy gyflawni gostyngiad ychwanegol o 5 y cant mewn aildroseddu.

Gwella perfformiad

Yn ogystal â'r manteision diriaethol a'r manteision cost sy'n deillio o gyflwyno cystadleuaeth, cydnabyddir yn eang bod cyflwyno cystadleuaeth am wasanaethau carcharol wedi cael effaith gadarnhaol ar yr agenda parch sydd â'r nod o drin troseddwyr â pharch mewn amgylchedd gofalgar a diogel. Mae hyn yn helpu i ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol gyda charcharorion a chynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn fwy tebygol o fynd ymlaen i fyw bywydau defnyddiol ac ufuddhau i'r gyfraith a fydd o fudd iddynt hwy fel unigolion a'r gymdeithas gyfan.

Mae tystiolaeth hefyd fod cyflwyno cystadleuaeth wedi helpu i ysgogi perfformiad gwell mewn carchardai ar draws ystod eang o fesurau. Caiff carchardai eu graddio ar raddfa perfformiad o 1 i 4 ar sail cerdyn sgorio o fesurau wedi'i bwysoli: dyfernir lefel 4 i sefydliadau ardderchog sy'n cyflawni perfformiad eithriadol o uchel ac mae lefel 1 yn nodi sefydliad sy'n perfformio'n wael. Ar hyn o bryd, caiff 18% o garchardai dan gontract eu graddio ar lefel perfformiad 4, o gymharu â 15% o garchardai yn y sector cyhoeddus.[3]

Cyflawni effeithlonrwydd ariannol mewn marchnad gystadleuol: tystiolaeth o'r sector carcharol

Mae'r sector carcharol yn darparu'r enghreifftiau canlynol o gyflawni effeithlonrwydd ariannol mewn marchnad gystadleuol:

- mae profion marchnad wedi'u cynnal ar nifer o garchardai. O ganlyniad i hyn, mae cost flynyddol darparu'r carchardai hyn wedi gostwng o £82m i £75m, gan arbed 8.5%;
- mae rhoi'r Gwasanaeth Cludo Carcharorion dan gontract wedi arbed £3.8m y flwyddyn, sy'n cyfateb i 3% o gost darparu'r gwasanaeth;
- mae nifer fach o garchardai wedi cael eu hadeiladu'n breifat a chânt eu rheoli'n breifat. Mae'r arbedion amcangyfrifedig o £15.9m yn gyfwerth â thua 6% ar sail tua £250m;
- mae profi perfformiad carchardai wedi arbed £2.8m, sy'n gyfwerth â 3% ar y carchardai hynny lle mae profion wedi'u cynnal ar berfformiad;
- mae'r dystiolaeth hon gan y Gwasanaeth Carchardai yn awgrymu y gallai cynnal profion marchnad pellach ar wasanaethau o fewn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol arbed rhwng 3.5% ac 8.5%;

Esbonnir y tybiaethau a wnaethpwyd wrth fodelu'r costau a'r manteision yn y paragraffau canlynol.

[3] *Ffynhonnell:* Graddfeydd Perfformiad y Gwasanaeth Carchardai Awst 2005

Adnoddau a Ryddheir

Yn yr amcangyfrif safonol, tybir y bydd gwaith sydd wedi bod yn destun profion marchnad ffurfiol yn cyflawni effeithlonrwydd o fewn y flwyddyn gyntaf ar ôl cynnal y profion.

Un o'r tybiaethau allweddol yw y bydd cynnal profion marchnad yn sicrhau effeithlonrwydd cyflenwyr, waeth pa un a fydd y broses yn arwain at newid cyflenwr ai peidio. Fel rhan o'r broses brofi, rhagwelir y bydd disgwyl i ddarparwyr presennol gynhyrchu ceisiadau sy'n cynnig gwell gwerth am arian na'r ddarpariaeth bresennol.

Er iddynt gael eu mynegi fel arbedion ariannol at ddibenion modelu, disgwylir i'r manteision gael eu cyflwyno drwy gyfuniad o wneud gwaith ychwanegol gyda throseddwyr o fewn yr un lefel o adnoddau ariannol. Ymhellach, tybir y bydd y broses yn creu gallu ychwanegol i gynhyrchu atebion arloesol i fynd i'r afael ag aildroseddu a fydd yr un mor effeithiol o leiaf, ac yn fwy effeithiol yn fwy na thebyg, o ran mynd i'r afael ag anghenion ailsefydlu troseddwyr gan sicrhau mwy o effaith ar ostwng aildroseddu a throseddau, o ganlyniad i hynny.

Costau canolog systemau profion marchnad

Tystiolaeth o'r sector carcharol

Mae'r dystiolaeth o'r sector carcharol fel a ganlyn:

- Cynllunio, Adeiladu a Rheoli (DCM) Carchardai: Agorwyd y carchardai yn Peterborough a Bronzefield yn ddiweddar. Carchardai DCM ydynt sydd wedi'u cynllunio, eu hadeiladu a'u rheoli gan y sector preifat. Cost amcangyfrifedig rhedeg y gystadleuaeth ar gyfer y carchardai hyn yw £2m, sy'n gyfwerth â £1m fesul carchar. Amcangyfrifir nawr y gallai Carchardai DCM eraill gostio £1.1m i'w caffael. Mae'r costau yn cynnwys y canlynol (a gallent gael eu lleihau os bydd mwy o garchardai DCM):

    - £120K - Cynghorwyr ariannol
    - £360K - Cynghorwyr cyfreithiol
    - £40K – Yswiriant
    - £220K – Peirianwyr Cydymffurfio
    - £340K – Staff
    - £20K - Treuliau

- Cynnal Profion Marchnad ar Garchardai lle cynhelir profion marchnad ar garchardai unigol a'u gwneud yn destun cystadleuaeth gyda'r sector preifat. Amcangyfrif bod y broses hon yn costio tua £700k fesul carchar fel a ganlyn:

    - £70K - Cynghorwyr ariannol
    - £200K - Cynghorwyr cyfreithiol
    - £40K – Yswiriant
    - £300K – Peirianwyr Cydymffurfio (arolygon o gyflwr)
    - £100K – Staff
    - £10K - Treuliau

- Cynnal Profion Perfformiad ar Garchardai lle mae'n ofynnol i garchar wella ei berfformiad yn sylweddol neu fod yn destun profion marchnad/cystadleuaeth. Amcangyfrifir bod cynnal profion perfformiad yn costio £350k fesul carchar, sef £100k ar gyfer staff Uned Cystadlaethau NOMS a £250k ar gyfer tîm ceisiadau mewnol y gwasanaeth carchardai.

Goblygiadau ar gyfer Profion Marchnad/Perfformiad ym maes Profiannaeth

Mae gan garchardai cyffredin gyllideb o tua £12m. Mae'r ffigur hwn yn gyfwerth â'r gyllideb ar gyfartaledd ar gyfer ardaloedd prawf unigol (ac eithrio Llundain). Amcangyfrifir y gallai cost cynnal profion marchnad ar gyfer ardal brawf gyfan fod gyfwerth â'r gost o gynnal profion marchnad ar garchar yn fras. Hyd nes y cytunir ar sut i gynnal profion marchnad, dyma'r ymagwedd fwyaf syml o ran amcangyfrif costau profion marchnad ym maes profiannaeth. Os yw'r dybiaeth honno'n ddilys, yna byddai'n costio tua £700k. Fodd bynnag, gellir cwestiynu a fyddai angen gwario £300k ar arolygon o gyflwr adeiladau. Mae pob un o adeiladau'r gwasanaeth prawf wedi bod yn destun arolygon rheolaidd o'u cyflwr, felly efallai na fyddai angen y gwariant hwn, gan leihau'r gost i £400k.

Costau Mewnol Paratoi Ceisiadau

Mae'r cyflenwr yn wynebu costau o ran paratoi ceisiadau. Amcangyfrifir bod cynnal profion ar berfformiad carchar yn costio £350k. Mae hyn yn cynnwys £100k ar gyfer staff Uned Cystadlaethau NOMS a £250k ar gyfer tîm ceisiadau mewnol y Gwasanaeth Carchardai. Tybir y byddai'r ffigur hwn yn gostwng i £220k erbyn diwedd y cylch profi yn sgîl effaith cromlin dysg. Gan ddefnyddio hyn fel meincnod, cyfanswm y gost o baratoi ceisiadau yn fewnol ar gyfer contractau yn unol â gwerth y gwariant sydd wedi'i ymrwymo ar hyn o bryd i'r 42 o ardaloedd prawf fyddai £9.1m.

Costau mewnol cydymffurfio â chontractau

Yn ogystal â'r gofynion presennol o ran cyflwyno adroddiadau, amcangyfrifir bod y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â throsglwyddo i gydberthynas gytundebol yn debygol o fod tua £50k y flwyddyn ar gyfer pob ardal brawf. Costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r broses o gydymffurfio â chontractau yw'r rhain yn bennaf a byddent yn ychwanegol at ofynion adroddiadau ariannol ac adroddiadau perfformiad sy'n bodoli eisoes.

Costau Rheoli Contractau

Amcangyfrifir mai 1.2% o werth contractau yw costau blynyddol rheoli contractau prawf yn y dyfodol ar gyfartaledd. Mae'r dybiaeth hon yn seiliedig ar dystiolaeth o gostau rheoli contract carchardai dan gontract, contractau monitro electronig a'r contractau PECS. Mae'r contractau hyn yn fwy na'r rheini a ragwelir ar gyfer y gwasanaeth prawf ac, o ganlyniad, mae'r gwaith o reoli contractau yn cynrychioli canran lai na'r hyn a dybiwyd uchod ar gyfer contractau'r gwasanaeth prawf.

ATODIAD 2

ASESIAD EFFAITH REOLEIDDIOL

1. TEITL Y CYNNIG

Pwerau carchardai a chanolfannau hyfforddi diogel dan gontract

2. DIBEN AC EFFAITH FWRIADEDIG

Amcan

Diben y mesurau yw dileu'r anghysonderau rhwng y ffordd mae carchardai a chanolfannau hyfforddi diogel dan gontract a charchardai a chanolfannau hyfforddi diogel sector cyhoeddus yn gweithredu.

Cefndir

Ar hyn o bryd, mae 11 o garchardai preifat yng Nghymru a Lloegr. Ar unrhyw ddiwrnod penodol, cedwir tua 12% o gyfanswm poblogaeth carchardai mewn carchardai dan gontract (yn yr ystâd i ferched, cedwir tua 25% o gyfanswm y boblogaeth mewn carchardai sy'n ferched mewn carchardai preifat bellach). Amcangyfrifir y bydd tua chwarter o'r holl garcharorion yn treulio o leiaf rywfaint o'u dedfryd mewn carchar sy'n cael ei reoli gan gontractwr preifat.

Mae pedair canolfan hyfforddi ddiogel dan gontract ar gyfer troseddwyr dan 18 oed. Cedwir tua 10 y cant o'r boblogaeth o dan 18 oed sy'n bwrw dedfryd ynddynt.

Sefydlwyd carchardai preifat yn gyfreithiol o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991. Agorwyd y carchar preifat cyntaf yn 1992 yn Wolds. Y carchar diweddaraf i gael ei agor oedd Carchar EM Peterborough ym mis Mawrth 2005.

Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 yw'r ddeddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer sefydlu a rhedeg canolfannau hyfforddi diogel (yn cynnwys

canolfannau dan gontract). Y ganolfan ddiweddaraf i gael ei hagor oedd Oakhill, ger Milton Keynes, ym mis Awst 2004.

Mae gan bob carchar preifat Gyfarwyddwr sy'n cyflawni rôl debyg i rôl Llywodraethwr mewn carchar sector cyhoeddus. Fodd bynnag, yn ôl y gyfraith, rhaid bod gan bob carchar preifat Reolydd, sef Gwas y Goron sy'n monitro'r ffordd y caiff y carchar ei weithredu a'r ffordd y caiff carcharorion eu trin, yn ogystal â chyflawni rhai dyletswyddau statudol (fel dyfarniadau ac arwahanu) ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn yr un modd, mae gan bob Canolfan Hyfforddi Diogel dan gontract Gyfarwyddwr a Monitor, sy'n Was y Goron. Fodd bynnag, mae gan Gyfarwyddwyr canolfannau hyfforddi diogel ystod ehangach o bwerau na Chyfarwyddwyr carchardai preifat ac nid oes angen ychwanegu atynt.

Gelwir staff sy'n gweithio gyda charcharorion mewn carchardai preifat yn Swyddogion Cadwraeth Carcharorion ac maent yn cyflawni'r un amrywiaeth o dasgau a dyletswyddau â swyddogion carchar mewn carchardai sector cyhoeddus. Yn ogystal, mae staff cynorthwyol yn cynorthwyo swyddogion cadwraeth carcharorion i gyflawni eu dyletswyddau mewn ffordd debyg i'r defnydd o Raddfeydd Cymorth Gweithredol yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, nid oes gan staff cynorthwyol yr un pwerau â staff Graddfeydd Cymorth Gweithredol. Nid oes unrhyw staff cynorthwyol mewn canolfannau hyfforddi diogel.

Sail resymegol dros ymyriad gan y llywodraeth

Bydd y mesurau arfaethedig yn rhoi pwerau i Gyfarwyddwyr a staff carchardai dan gontract i (a) gwneud dyfarniadau mewn perthynas â charcharorion a'u gwahanu, (b) pwerau i gynnal chwiliadau ar ymwelwyr a'u cadw, a (c) sicrhau bod swyddogion cadwraeth nad ydynt yn ymwneud â charcharorion yn gallu cyflawni tasgau cyfatebol i'r rheini a gyflawnir gan staff graddfeydd cymorth gweithredol mewn carcharorion sector cyhoeddus. Gellir cymharu'r holl bwerau hyn â'r pwerau a ddelir eisoes gan Lywodraethwyr a staff mewn carcharorion sector cyhoeddus, a byddant yn sicrhau bod carchardai cyhoeddus a charchardai preifat yn gweithredu'n gyson tra'n cynnal dulliau diogelu priodol ar gyfer trin carcharorion. Yn ogystal, cynigir y dylai Swyddogion Cadwraeth mewn canolfannau hyfforddi diogel dan gontract gael pwerau cyfatebol i gynnal chwiliadau ar ymwelwyr a'u cadw.

Pan sefydlwyd carchardai preifat gyntaf, ni roddwyd y pwerau hyn i Gyfarwyddwyr hyd nes y dangoswyd bod carchardai preifat yn gweithredu i safon foddhaol. Mae hanes cyffredinol carchardai preifat ers 1992 yn dangos bod hyn wedi'i gyflawni. Mae'r holl bwerau i'w trosglwyddo yn cael eu hystyried fel dulliau hanfodol i'w

defnyddio gan Lywodraethwyr carchardai sector cyhoeddus ar gyfer cadw trefn, rheolaeth a disgyblaeth.

Rydym hefyd yn cynnig cydnabod yn ffurfiol y gwaith a wneir gan staff ar wahân i Swyddogion Cadwraeth Carcharorion i gynorthwyo'r broses o redeg carchar preifat yn effeithiol. Unwaith eto, bydd hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn y sector cyhoeddus lle mae rôl staff Graddfeydd Cymorth Gweithredol wedi dod yn hanfodol o ran cynorthwyo swyddogion carchar.

3. YMGYNGHORIAD

Rydym wedi ymgynghori â chydweithwyr yng Ngwasanaeth Carchardai'r sector cyhoeddus, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, contractwyr presennol carchardai sector preifat a Rheolwyr carchardai preifat. Mae contractwyr carchardai sector preifat wedi dangos cefnogaeth gref i'r newidiadau hyn ac, mewn rhai achosion, maent wedi bod yn galw amdanynt ers blynyddoedd lawer.

4. OPSIYNAU

1. Gwneud dim - yn syml, bydd hyn yn golygu y bydd yr anghysondeb presennol rhwng darparwyr cyhoeddus a masnachol yn parhau. Bydd yn sicrhau bod gwahaniaethau gweithredol anwarantedig rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn parhau a bydd yn rhwystro cystadleuaeth yn y dyfodol pan fydd y broses anochel honno yn cychwyn. Mae hefyd yn gadael y posibilrwydd o'r embaras a allai gael ei achosi gan her gyfreithiol lwyddiannus i arfer hirdymor mewn carchardai preifat.
2. Trosglwyddo'r pwerau fel y disgrifiwyd yn flaenorol - bydd hyn yn caniatáu cystadleuaeth lawn yn y dyfodol gan y bydd pob darparwr yn yr un sefyllfa. Byddai graddfeydd staff cyfatebol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn cyflawni'r un ystod o ddyletswyddau. Caiff y pryder ynghylch her gyfreithiol ei osgoi.

5. COSTAU A MANTEISION

Sectorau a grwpiau yr effeithir arnynt

Mae goblygiadau ein cynigion i wasanaethau cyhoeddus eraill yn gyfyngedig, ac eithrio effaith fach ar Wasanaeth Carchardai'r sector cyhoeddus. Efallai y byddant

yn canfod y byddai rhywfaint o'r fantais fasnachol bosibl a ddelir ganddynt o ganlyniad i fwy o hyblygrwydd o ran defnyddio staff yn cael ei dileu o gylchoedd cystadlu yn y dyfodol. Nid oes unrhyw effaith ar y trydydd sector.

Manteision

Ceir manteision sylweddol o fabwysiadu opsiwn 2. Mae'r broses o drosglwyddo'r pwerau yn rhoi mwy o reolaeth weithredol i gontractwyr dros eu carchardai a'u canolfannau hyfforddi diogel. Bydd yn caniatáu cystadleuaeth lawer haws yn y dyfodol o ganlyniad i gydraddoldeb rhwng darparwyr cyhoeddus a darparwyr preifat ac mae'n cynnig arbedion cost posibl mewn perthynas â chontractau drwy ddefnyddio staff yn fwy hyblyg. Caiff y posibilrwydd o weld her gyfreithiol lwyddiannus ei osgoi.

Costau

Mae effaith gyffredinol opsiwn 2 yn niwtral o ran costau. Bydd costau presennol yn cael eu trosglwyddo o'r sector cyhoeddus i bob un o'r pedwar darparwr contractau carchardai preifat. Caiff unrhyw gostau yr eir iddynt eu gwrthbwyso gan y lleihad cydamserol yn nifer y staff sy'n rhan o dimau'r Rheolydd. Bydd costau hyfforddi contractwyr yn rhan o'u pris cytundebol.

6. PRAWF EFFAITH AR GWMNÏAU BACH

Nid yw'r mesur yn cael effaith andwyol ar fusnesau bach

7. ASESU'R GYSTADLEUAETH

Mae'r mesurau arfaethedig yn debygol o gael eu croesawu gan gontractwyr sector preifat presennol a chontractwyr sector preifat yn y dyfodol. Byddent yn cael mwy o reolaeth dros y risgiau gweithredol sy'n gysylltiedig â rhedeg eu contractau yn ogystal â mwy o hyblygrwydd o ran defnyddio staff. Efallai y bydd y mesurau hyn hefyd yn denu darpar gyflenwyr eraill i ymuno â'r farchnad.

8. CYNLLUN GWEITHREDU A CHYFLAWNI

Mae cynlluniau gweithredu a chyflawni wrthi'n cael eu datblygu.

9. ADOLYGIAD AR ÔL GWEITHREDU

Caiff y mesurau eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl effeithiol a darbodus.

10. CRYNODEB AC ARGYMHELLIAD

Argymhellir y dylid dilyn Opsiwn 2, sef gweithredu'r cynigion a nodir yn yr asesiad effaith reoleiddiol hwn yn llawn.

ATODIAD 3

ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB HILIOL

CEFNDIR

Nod cyffredinol y Mesur yw cyfrannu at ostwng aildroseddu a diogelu'r cyhoedd. Bydd y Mesur yn gwella'r ffordd yr ydym yn rheoli troseddwyr o fewn y system cyfiawnder troseddol drwy:

1. Sicrhau y caiff gwasanaethau prawf eu darparu gan amrywiaeth o ddarparwyr.

2. Dileu rhai o'r anghysonderau rhwng pwerau staff mewn carchardai cyhoeddus a charchardai preifat.

3. Diwygio troseddau cyfredol o ddod ag eitemau i mewn i garchardai.

4. Galluogi rhannau gwahanol o'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) i rannu gwybodaeth gyda'i gilydd.

6. Gwneud gwelliannau technegol er mwyn gallu cyflwyno'r system cyfiawnder troseddol yn fwy effeithlon

DATBLYGU CYNIGION AC ASESU'R EFFAITH O RAN CYDRADDOLDEB HILIOL

Mae'r ddeddfwriaeth hon, y cyfeirir ati uchod, yn newid y ffyrdd y byddwn yn darparu gwasanaethau prawf. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion hyn, a nodir yn llawnach yn *Restructuring Probation to Reduce Re-offending*[4], rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2005. Derbyniwyd cyfanswm o 748 o sylwadau, a nododd nifer o'r ymatebion bwyntiau yn ymwneud â chydraddoldeb hiliol a materion amrywiaeth ehangach. Un o'r pryderon a fynegwyd oedd na fyddai gan ddarparwyr sector preifat 'ethos sector cyhoeddus' ac felly byddent yn llai ymrwymedig i sicrhau amrywiaeth na'r Byrddau Prawf presennol. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch y graddau y gallai camau gweithredu amrywiaeth gael eu gorfodi drwy gontractau gyda darparwyr, a chafwyd ymholiadau ynghylch a fyddai rôl y Gyfarwyddiaeth Brawf Genedlaethol o ran cydgysylltu gweithgarwch amrywiaeth yn parhau. Roedd barn gref y dylai

[4] http://www.noms.homeoffice.gov.uk/downloads/NOMSconsultation.pdf

aelodaeth Ymddiriedolaethau Prawf gynrychioli'r gymuned leol a fyddai'n cael ei gwasanaethu. Eir i'r afael â'r materion hyn isod.

Cynhaliodd NOMS weithdy Asesu Effaith Cydraddoldeb Hiliol ar 27 Ebrill i ystyried y materion hyn ymhellach gyda chynrychiolwyr sefydliadau â diddordeb penodol mewn cydraddoldeb hiliol. Roedd y rhai a fynychodd y gweithdy o'r farn bod y system gomisiynu newydd yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn llawnach, yn arbennig o ystyried y dylai model comisiynu fod yn fwy seiliedig ar anghenion troseddwyr a'r gymuned yn hytrach na darparu gwasanaethau i weddu i'r darparwr. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i asesiadau o anghenion a gynhelir naill ai'n genedlaethol neu'n rhanbarthol adlewyrchu materion amrywiaeth a mynd i'r afael â hwy wrth gomisiynu cynigion.

Mae'n rhaid i faterion cydraddoldeb hiliol fod yn rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu contractau a chyflwyno'r broses gomisiynu. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym nawr yn cyhoeddi ein strategaeth ymgysylltu barhaus hefyd. Mae ansicrwydd ynghylch cyflymder newid ar adeg pan fo'r Swyddfa Gartref wedi gorfod mynd i'r afael â blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd wedi rhwystro cynnydd o ran gweithredu ein cynlluniau ymgysylltu hyd nes y gallem fod yn gliriach ynghylch ein hagenda ar gyfer newid a'r graddfeydd amser cysylltiedig. Byddwn yn cyhoeddi ein fframwaith comisiynu yn fuan, a fydd yn nodi ein blaenoriaethau comisiynu a'r targedau a'r mesurau cysylltiedig yn gliriach.

1. TREFNIADAU NEWYDD AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU PRAWF– CYMALAU 1-9 AC ATODLENNI 1-2

Amcan y Polisi

Datblygu amgylchedd a strwythur comisiynu ar gyfer gwasanaethau prawf a chaniatáu cystadleuaeth lawn ar gyfer darparu gwasanaethau prawf, yn amodol ar ddeddfwriaeth.

Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn rhoi dyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud trefniadau gydag eraill i ddarparu gwasanaethau prawf, ac i greu cyrff newydd, a fydd yn disodli Byrddau Prawf lleol, y gall ymrwymo i gontractau â hwy. Bydd hyn yn galluogi comisiynwyr rhanbarthol, yn gweithredu ar ran yr Ysgrifennydd gwladol, i gomisiynu gwasanaethau gan ystod o ddarparwyr yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol.

Bydd y newidiadau hyn yn galluogi:

- Comisiynu gwasanaethau sy'n croesi ffiniau daearyddol, yn cynnwys ffiniau cenedlaethol o bosibl, lle y bo'n briodol;
- Comisiynu ar draws ffiniau sefydliadau, e.e. ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i droseddwyr pan fyddant yn y ddalfa a phan fyddant dan oruchwyliaeth yn y gymuned;
- Darparwyr eraill o'r sector preifat a'r sector gwirfoddol a chymunedol yn cystadlu i ennill contractau;
- Rhaniad rhwng y prynwr a'r darparwr;
- Perfformiad gwell a datblygiadau arloesol mewn gwasanaethau.

Bydd gwasanaethau prawf yn destun her a chystadleuaeth bosibl. Byddwn yn cyflwyno rhaglen cam wrth gam, yn cynnwys profion ar berfformiad a phrofion marchnad. Maes o law, gall rhai darparwyr eraill o'r sector preifat neu'r sector gwirfoddol a chymunedol ennill contractau ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan Fyrddau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, prif bwyslais y cyhoeddiad yw cyflawni mentrau cydweithredol gyda darparwyr o'r sectorau amrywiol gan ddefnyddio eu priod gryfderau.

Perthnasedd o ran Cydraddoldeb Hiliol

Y prif newid o dan y cynigion yw bod gwasanaethau yn cael eu comisiynu, a'r atebolrwydd newydd cysylltiedig sydd ei angen ar y gydberthynas rhwng y comisiynydd a'r darparwr. Bydd darparwyr yn gyfrifol am redeg eu sefydliad. Bydd y comisiynydd yn pennu'r canlyniadau gofynnol, bydd angen i'r darparwr benderfynu sut y caiff y canlyniadau hynny eu cyflawni, a bydd angen i'r comisiynydd ystyried a yw'n fodlon, neu'n anfodlon, ar yr hyn y mae'r darparwr yn ei gyflawni drwy fonitro'r contract neu'r cytundeb lefel gwasanaeth.

Mae'r broses gomisiynu yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr gael ei drin yn gyfartal a bod darparwyr yn cael eu dyfarnu ar sail eu heffeithiolrwydd gweithredol gan ddefnyddio meini prawf a phrosesau tryloyw. Bydd comisiynwyr yn seilio'u penderfyniadau prynu ar wybodaeth gynyddol well am anghenion yr unigolyn a'r gymuned, yn hytrach na darpariaeth hanesyddol, a byddant yn cyfuno'r wybodaeth hon â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol er mwyn cyflawni'r cymysgedd gorau o ddarpariaeth o fewn eu cyllidebau. Mae'r ffaith y bydd y broses o ddarparu gwasanaethau yn seiliedig ar ddadansoddiad gwell o anghenion wedi ein cynorthwyo i ymateb yn well i'n hagenda amrywiaeth. Bydd yn gwbl briodol i ddarparwyr hysbysu comisiynwyr o'r anghenion y maent wedi'u nodi yn eu cymunedau, gan ddeall mai dim ond os ydynt yn effeithio ar ostwng aildroseddu a diogelu'r cyhoedd yn well y bydd y comisiynydd yn dewis mynd i'r afael â'r rhain.

Mae Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddileu achosion anghyfreithlon o wahaniaethu ar sail hil a hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol. Wrth ymrwymo i gontractau ar gyfer gwasanaethau prawf gyda thrydydd partïon, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried yr angen i ddileu achosion anghyfreithlon o wahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da.

Nodwyd y gallai symud i system sy'n seiliedig ar gomisiynu a chyflwyno darparwyr newydd effeithio ar gydraddoldeb hiliol mewn dau faes, yn amodol ar gyflwyno'r ddeddfwriaeth:

Recriwtio a chyflogi staff

O dan y cynigion deddfwriaethol:

- Caiff Cadeiryddion ac aelodau Ymddiriedolaethau Prawf eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr un ffordd â Chadeiryddion ac aelodau Byrddau Prawf;

- Ni chaiff Prif Swyddogion Ymddiriedolaethau Prawf eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol mwyach, yn hytrach cânt eu penodi a'u cyflogi gan yr Ymddiriedolaeth;
- Daw staff a gyflogir gan y Byrddau Prawf yn gyflogeion yr Ymddiriedolaeth; *ac*
- Os bydd darparwr arall yn ennill contractau ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth, bydd telerau ac amodau staff yn cael eu diogelu gan y gyfraith

Darparu gwasanaethau

Bydd y cynigion deddfwriaethol yn galluogi'r comisiynydd rhanbarthol i benderfynu ar y gwasanaethau a gynigir i droseddwyr, mewn ymgynghoriad â phartneriaid cyfiawnder troseddol lleol yn cynnwys dedfrydwyr, ynghyd ag Ymddiriedolaethau a darparwyr eraill. Darperir y gwasanaethau hyn drwy amrywiaeth o ddarparwyr a reolir drwy gontractau neu gytundebau lefel gwasanaeth a ddelir gyda'r comisiynydd

a) Recriwtio a chyflogi staff

Mae gan y gwasanaeth prawf enw da am sicrhau bod grwpiau lleiafrifol yn cael cynrychiolaeth briodol ar Fyrddau Prawf: nododd adroddiad dilynol 2004 Arolygiaeth Prawf EM ar arolygiad thematig 2000 o gydraddoldeb hiliol fod 16% o aelodau Byrddau Prawf yn dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Yn ei barn hi, roedd yr argymhelliad a wnaethpwyd yn adroddiad 2000, sef y dylai'r Swyddfa Gartref sicrhau cynrychiolaeth briodol ar gyfer lleiafrifoedd ethnig ar Fyrddau Prawf, wedi'i "gyflawni'n dda". Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol a'r swyddogion sy'n gweithio ar ei ran yn parhau i ystyried amrywiaeth wrth ddewis a phenodi aelodau'r Ymddiriedolaeth.

Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn rhagori ar ei darged ar gyfer 2009, sef bod 8.4% o staff yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Ar ddiwedd mis Rhagfyr 2005, roedd 12.1% o staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, cynnydd o'r 10.9% a nodwyd flwyddyn yn gynharach a 9.8% yn 2000[5]. Cynhaliodd Arolygiaeth Prawf EM arolygiad thematig o gydraddoldeb hiliol yn y gwasanaeth prawf yn 2000, a nododd yr adroddiad dilynol yn 2004 fod 16% o aelodau Byrddau Prawf yn dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig, a bod cyfran y rheolwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu ers yr arolygiad gwreiddiol[6].

Mae strategaeth amrywiaeth y Gyfarwyddiaeth Brawf Genedlaethol yn nodi nifer o amcanion ar gyfer y Gwasanaeth Prawf, e.e. 7% o staff o leiafrifoedd ethnig ar lefelau uwch reolwyr erbyn 2009, ac yn nodi rhaglen weithredu i gyflawni'r rhain. Mae'r cyfeiriad strategol hwn yn amlwg yn werthfawr. Yn ogystal, mae'r Gyfarwyddiaeth Brawf Genedlaethol yn darparu hyfforddiant penodol ar gyfer staff o leiafrifoedd ethnig er mwyn cydnabod potensial ac annog dilyniant gyrfa. Mae'r Gyfarwyddiaeth Brawf Genedlaethol hefyd yn cyfrannu at ariannu grwpiau cymorth

[5] Adroddiad Perfformiad y Gyfarwyddiaeth Brawf Genedlaethol 19 - Chwefror 2006

[6] Towards Race Equality: Follow-up Inspection Report, *Arolygiaeth Carchardai EM (2004)*

staff ac yn sicrhau bod cynrychiolwyr staff yn cael cyfnod o absenoldeb â thâl i weithio i'r grwpiau hyn. O dan y trefniadau newydd arfaethedig bydd rôl y Gyfarwyddiaeth yn newid, gan y bydd llawer o'i phrif swyddogaethau yn cael eu trosglwyddo i Bencadlys NOMS a'r comisiynwyr rhanbarthol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar drefniadau ar gyfer y Gyfarwyddiaeth yn y dyfodol a bydd angen ystyried ble y dylai'r gwaith hwn ddigwydd, gan sicrhau yr eir i'r afael â'r anghenion hyfforddi hyn a strategaethau ar gyfer recriwtio a chadw staff a dilyniant gyrfa.

Mae NOMS yn ymrwymedig i sicrhau bod pob darparwr gwasanaeth prawf, pa un ai'n ddarparwr sector cyhoeddus, sector preifat neu sector gwirfoddol yn cyflogi staff proffesiynol, medrus ac amrywiol, sy'n gallu cyflawni eu rolau i'r safonau uchaf. Mae cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth yn rhan sylfaenol o'r ymrwymiad hwn, nid dim ond o ran y gyfraith ond yn nhermau ymrwymiad clir y Swyddfa Gartref i sicrhau amrywiaeth yn y gwasanaethau cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdanynt.

b) Darparu gwasanaethau

Caiff grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig eu cynrychioli'n anghyfartal ymhlith y rheini a gaiff eu goruchwylio gan y gwasanaeth prawf. Mae'r ystadegau sydd ar gael yn awgrymu bod 11.7% o bobl sy'n dechrau cael eu goruchwylio cyn eu rhyddhau neu ar ôl eu rhyddhau ac 8.8% sy'n dechrau cael eu goruchwylio o dan orchymyn llys gan y Gwasanaeth Prawf yn nodi eu bod yn dod o grŵp ethnig nad yw'n wyn, o gymharu â 7.9% o boblogaeth y DU[7] (fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r ffigurau hyn yn cynnwys ardal Llundain oherwydd diffyg argaeledd data, hepgoriad a allai, o ystyried y ffaith bod Llundain yn cyfrif am gyfran fawr o'r cyfanswm, fod wedi arwain at danamcangyfrif).

Bydd comisiynwyr yn nodi'r disgwyliadau o ran amrywiaeth yn nhermau darparu gwasanaethau a sut y dylid monitro'r rhain. Byddant yn nodi pa fath o fonitro ethnig y bydd yn ofynnol i ddarparwyr ei gyflawni, a'r canlyniadau y disgwylir iddynt eu cyflawni. Yn ogystal, yn y dyfodol, caiff gwasanaethau eu comisiynu fwyfwy ar sail tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Bydd hyn yn galluogi'r broses o nodi anghenion gwahanol droseddwyr a grwpiau o droseddwyr, yn cynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a mynd i'r afael â hwy yn well. Disgwyliwn i hyn arwain at welliant yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu teilwra i ddiwallu anghenion gwahanol droseddwyr drwy fynd i'r afael ag effeithiolrwydd amrywiol y darparwyr a thrwy'r comisiynwyr yn gosod disgwyliadau cliriach a gaiff eu monitro a'u hadolygu. Yn

[7] Statistics on Race and the Criminal Justice System – 2004, *y Swyddfa Gartref (2004.*

benodol, bwriedir i'r broses gomisiynu hyrwyddo arloesedd a denu darparwyr newydd, yn aml yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill.

Disgwyliwn y bydd sefydliadau'r trydydd sector yn gallu cystadlu am gontractau gyda'r Rheolwyr Troseddwyr Rhanbarthol ac am is-gontractau gyda darparwyr eraill. Bydd sefydliadau grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cael y cyfle i geisio am waith a gallent fod mewn sefyllfa dda i deilwra rhaglenni i anghenion y cymunedau penodol a gynrychiolir ganddynt. Roedd rhai o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn pryderu y byddai sefydliadau bach yn cael eu 'gwthio' o'r gystadleuaeth; bydd NOMS yn mynd i'r afael ag anghenion sefydliadau grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig drwy ei ymagweddau caffael er mwyn sicrhau na fydd hyn yn digwydd.

Dulliau diogelu

- Bydd NOMS yn ymgorffori safonau ar amrywiaeth a chydraddoldeb hiliol mewn contractau fel rhan o'i wiriad diwydrwydd dyladwy o rwymedigaethau cyfreithiol contractwyr. Mae'n orfodol i bob darparwr gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli cydraddoldeb hiliol.
- Bydd NOMS yn defnyddio canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ar gaffael i sicrhau bod comisiynwyr a darpar darparwyr yn bodloni'r rhwymedigaethau mewn perthynas â chydraddoldeb hiliol. Caiff egwyddorion amrywiaeth eu hymgorffori ym mhob contract yr ymrwymir iddo gyda sefydliadau sy'n gweithio gyda throseddwyr.
- Bydd NOMS yn gweithio gyda chomisiynwyr i ddatblygu canllawiau ar yr hyn y bydd comisiynwyr yn ei wneud i ystyried materion cydraddoldeb hiliol, rhyw ac anabledd a materion amrywiaeth wrth nodi anghenion gwasanaeth, comisiynu gwasanaethau a negodi contractau.
- Bydd comisiynwyr yn nodi'r disgwyliadau o ran y broses o ddarparu gwasanaethau a sut y dylai darparwyr allu monitro ethnigrwydd a rhyw troseddwyr.
- Dylai'r broses o sefydlu'r Rhwydwaith Darparwyr Cenedlaethol gynorthwyo darparwyr llai o faint gyda materion fel cofrestru ac 'achredu'.
- Pencadlys NOMS fydd yn gyfrifol am fonitro a nodi strategaethau i fynd i'r afael â materion cyffredinol sy'n ymwneud â chydraddoldeb hiliol a'u rhoi ar waith, fel cyfraniad y gwasanaeth prawf i anghydraddoldebau hiliol yn y system cyfiawnder troseddol.
- Mae Arolygiaeth Prawf EM yn parhau i chwarae rôl statudol o ran monitro a nodi meysydd sy'n achosi pryder, ar sail thematig fel gydag adroddiadau Cydraddoldeb Hiliol 2000/2004 ac mewn pethynas ag ardaloedd prawf, gwasanaethau neu ddarparwyr penodol. Comisiynwyr rhanbarthol fydd yn gyfrifol

am adolygu unrhyw argymhellion ar gyfer darparwyr fel rhan o'u proses o reoli perfformiad.

Argymhelliad

Nid ydym yn argymell unrhyw newidiadau i'r darpariaethau hyn, ond nodwn fod angen parhau i drafod y materion hyn gyda rhanddeiliaid ac ymgorffori amrywiaeth yn y broses o ddatblygu a gweithredu'r rhaglen comisiynu a chystadlu.

2. PWERAU CARCHARDAI A CHANOLFANNAU HYFFORDDI DIOGEL DAN GONTRACT

Amcan y Polisi

Creu amgylchedd sy'n cefnogi mwy o gystadleuaeth wrth ddarparu lleoedd mewn carchar. Cyflawnir hyn drwy ddileu rhai o'r anghysonderau hanesyddol o ran y pwerau a ddelir gan gyfarwyddwyr carchardai preifat a llywodraethwyr yn y sector cyhoeddus. Mae'r rhain yn ymwneud yn benodol â'r pŵer i gynnal gwrandawiadau dyfarnu i droseddau honedig yn erbyn disgyblaeth carchar; awdurdodi'r defnydd o rym a mesurau gwahanu; a datrys anghysonderau cyfreithiol rhwng pwerau staff sector cyhoeddus a staff sector preifat mewn carchardai a chanolfannau hyfforddi diogel ar gyfer pobl ifanc o dan 18 oed i chwilio a chadw.

Crëodd Deddf Cyfiawnder Troseddol 1991 rolau'r cyfarwyddwr a'r rheolydd mewn carchardai preifat. Er i'r cyfarwyddwr gael pwerau tebyg i bwerau llywodraethwr mewn carchar sector cyhoeddus, gwnaethpwyd darpariaeth benodol i rwystro'r cyfarwyddwr rhag dyfarnu neu awdurdodi'r defnydd o rym a mesurau gwahanu. Rhoddwyd y dyletswyddau statudol hyn i reolwyr, sef gweision y Goron a oedd yn gyn aelodau o staff carchardai sector cyhoeddus yn gyffredinol.

Agorwyd y carchar preifat cyntaf yn 1992, a cheir 11 ohonynt bellach (y diweddaraf yw Carchar EM Peterborough a agorodd ym mis Mawrth 2005). Mae carchardai preifat bellach yn dal dros 12% o gyfanswm poblogaeth carchardai ar unrhyw adeg. Mae ganddynt enw da o ran yr hyn a gyflawnir ganddynt, maent yn cyflogi llawer o uwch reolwyr â chefndir gweithredol mewn carchardai sector cyhoeddus, a nhw oedd un o'r llywyr allweddol y tu ôl i'r broses o gyflwyno'r 'agenda parch' ar draws y Gwasanaeth Carchardai.

Bydd y mesurau arfaethedig yn galluogi cyfarwyddwyr, yn hytrach na rheolwyr a gyflogir gan y Swyddfa Gartref, i gyflawni swyddogaethau dyfarnu ac awdurdodi'r

defnydd o rym a mesurau gwahanu. Mae gan gyfarwyddwyr canolfannau hyfforddi diogel (gweler isod) bwerau ehangach na chyfarwyddwyr carchardai preifat ac nid oes angen ychwanegu atynt.

Pennodd Deddf Cyfiawnder Troseddol 1991 hefyd bwerau staff a gyflogir mewn carchardai preifat - swyddogion cadwraeth carcharorion. Yn wahanol i swyddogion carchar yn y sector cyhoeddus sy'n arfer pwerau heddlu cyfyngedig wrth gyflawni eu dyletswyddau, rhoddwyd pwerau cyfyngedig a ddiffiniwyd yn glir yn gyfreithiol i swyddogion cadwraeth carcharorion. Pŵer cyfyngedig a roddwyd iddynt o ran chwilio, ac nid oedd ganddynt unrhyw hawl i gadw ymwelydd hyd yn oed pe baent yn ei ddal yn cludo cyffuriau i mewn i'r carchar.

Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 sy'n darparu ar gyfer sefydlu a rhedeg canolfannau hyfforddi diogel. Mae'r Ddeddf yn caniatáu rhoi canolfannau dan gontract; a chaiff pob un o'r pedair ganolfan sydd wedi'i sefydlu ei rhedeg gan y sector preifat. Cedwir tua 10 y cant o'r bobl ifanc o dan 18 oed yn y ddalfa ar unrhyw ddiwrnod penodol ynddynt. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi pwerau staff mewn canolfannau hyfforddi diogel dan gontract, a elwir yn Swyddogion Cadwraeth. Mae'r rhain yn debyg i bwerau Swyddogion Cadwraeth Carcharorion mewn carchardai preifat.

Bydd y mesurau arfaethedig yn rhoi pwerau estynedig i Swyddogion Cadwraeth Carcharorion a Swyddogion Cadwraeth chwilio a chadw ymwelwyr, er na roddir pwerau'r heddlu iddynt. Bydd Swyddog Cadwraeth Carcharorion neu Swyddog Cadwraeth yn gallu cynnal chwiliad allanol llawn ar ymwelydd, a bydd hefyd yn gallu cadw person y canfyddir ei fod wedi cyflawni trosedd nes y gall yr heddlu gyrraedd y carchar. Rhoddir pŵer ychwanegol i staff nad ydynt yn Swyddogion Cadwraeth Carcharorion mewn carchardai sector preifat i'w galluogi i gyflawni ystod gyfyngedig o ddyletswyddau a fydd yn eu galluogi i gael eu defnyddio yn yr un ffordd â staff Graddfeydd Cymorth Gweithredol cyfatebol mewn carchardai sector cyhoeddus. Nid oes angen ymestyn y pŵer hwn i ganolfannau hyfforddi diogel dan gontract, gan nad ydynt yn cyflogi staff cynorthwyol.

Perthnasedd o ran Cydraddoldeb Hiliol

Dim ond carcharorion mewn carchardai preifat a chanolfannau hyfforddi diogel dan gontract a'r rheini sy'n ymweld â'r carchardai a'r canolfannau hynny y bydd y polisi yn effeithio arnynt. Er na chaiff grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig eu cynrychioli'n gyfartal yn y boblogaeth garcharol, ni fydd trosglwyddo'r pŵer i ddyfarnu, gwahanu ac awdurdodi'r defnydd o rym i gyfarwyddwyr a chynyddu ystod y gwaith a wneir gan staff nad ydynt yn Swyddogion Cadwraeth Carcharorion yn unol ag arferion cyfredol yn y sector cyhoeddus yn arwain at unrhyw wahaniaeth yn y modd y caiff carcharorion gwyn a charcharorion o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig eu trin.

Yn yr un modd, er bod cyfran fwy o ymwelwyr yn debygol o ddod o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a bod pwerau chwilio a chadw Swyddogion Cadwraeth Carcharorion a Swyddogion Cadwraeth felly'n effeithio arnynt mewn ffordd anghyfartal, ni fydd y mesur hwn yn arwain at unrhyw wahaniaeth yn y ffordd y caiff ymwelwyr gwyn nac ymwelwyr o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig eu trin.

Dulliau diogelu

Ni fydd y polisi hwn yn cael unrhyw effaith andwyol ar faterion cydraddoldeb hiliol oherwydd y dulliau diogelu pwysig sy'n bodoli o fewn yr ystâd carchardai dan gontract. Yn gyntaf, mewn perthynas â phob agwedd ar weithrediadau gan gynnwys dyfarniadau, gwahanu a'r defnydd o rym, mae gan bob darparwr rwymedigaeth gytundebol i gydymffurfio'n llawn â'r holl ddeddfwriaeth cysylltiadau hiliol gyfredol. Cyflwynir fframwaith cymhwysedd llym i gyfarwyddwyr a'u staff cyn y gallant arfer y pwerau hyn. Mae eisoes yn ofynnol i holl staff contractwyr ymgymryd â hyfforddiant mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â hil. Yn ogystal, bydd angen i gontractwyr sicrhau bod eu staff yn cael eu hyfforddi o leiaf i'r safon sy'n ofynnol i gyflawni'r ystod hon o ddyletswyddau yn y sector cyhoeddus. Eisoes, mae gan bob carchar preifat reolydd a fydd yn monitro'r gwaith o gymhwyso'r pwerau hyn yn ddyddiol.

Argymhelliad

Nid ydym yn argymell unrhyw newid i ddarpariaethau'r mesur hwn yn sgîl yr asesiad uchod.

Mesurau Ychwanegol

Mae'r mesurau canlynol hefyd yn rhan o'r Mesur ac, yn dilyn sgrinio, nodwyd nad oes unrhyw faterion cydraddoldeb hiliol sy'n berthnasol iddynt.

1. Datgelu gwybodaeth - Cymal 10

Bydd y mesur hwn yn ffurfioli trefniadau ar gyfer rhannu data ar draws y llywodraeth at ddibenion NOMS. Bydd y rhan fwyaf o'r data y ceisiwn gael gafael arno ar ffurf ddi-enw at ddibenion monitro effeithiolrwydd cyffredinol rhaglenni rheoli troseddwyr. Ni chaiff y ddarpariaeth hon unrhyw effaith ormodol ar unrhyw ran benodol o'r gymdeithas o ran cydraddoldeb hiliol, cydraddoldeb rhyw na materion cydraddoldeb eraill.

2. Troseddau sy'n gysylltiedig â diogelwch mewn carchardai - Cymalau 16-19

Bydd y darpariaethau yn y Mesur hwn yn diwygio'r Ddeddf Carchardai i'w gwneud yn drosedd i berson fynd â chamera, ffôn symudol neu ddyfais debyg i mewn i garchar heb awdurdod, neu fynd ag eitemau gan gynnwys lluniau o garchar neu berson mewn carchar, recordiadau sain neu wybodaeth am garcharor o garchar. Bydd y darpariaethau hyn hefyd yn gwahaniaethu'n gliriach rhwng y troseddau a'r cosbau am gymryd eitemau eraill a waherddir i mewn i garchar. Byddant yn gymwys i unrhyw berson sy'n cyflawni trosedd o'r fath pa un a ydynt yn garcharor, yn ymwelydd neu'n aelod o staff. Nid ystyrir bod y mesurau yn cael effaith annheg ar unrhyw ran benodol o'r gymdeithas oherwydd materion cydraddoldeb hiliol, cydraddoldeb rhyw neu faterion cydraddoldeb eraill.

3. Dileu'r gofyniad i benodi swyddog meddygol ac ati - Cymal 20

Ni fydd gan y newid deddfwriaethol ynddo'i hun unrhyw oblygiadau ymarferol i feddygon a gyflogir gan garchardai ar hyn o bryd. Wrth gwrs, mae goblygiadau adnoddau dynol i'r broses o drosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r GIG ac mae'r rhain yn cael eu trafod gyda rhanddeiliaid perthnasol, ond ni fydd dileu'r darpariaethau swyddog meddygol yn y Mesur yn arwain at unrhyw gymhlethdodau ychwanegol. Mae'r diwygiad hefyd yn adlewyrchu newidiadau sydd eisoes wedi'u gwneud i'r gwaith o foderneiddio'r ffordd y caiff y gwasanaeth iechyd carchardai ei gyflwyno ac felly ni fydd yn cael effaith ar y gwasanaethau ynddo'i hun. O ganlyniad i hyn, ni fydd unrhyw effaith effaith-benodol ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb hiliol.

4. Achredu rhaglenni at ddibenion gofynion y rhaglen - Cymal 22

Mae gofyniad eisoes yn bodoli yn y broses achredu sy'n nodi bod angen i gynllunwyr a darparwyr rhaglenni ddangos tystiolaeth eu bod wedi ystyried amrywiaeth a chynhwysiant o ran rhoi'r un cyfle i bawb ddilyn rhaglenni ar sail anghenion. Rhaid i raglenni fynd i'r afael â meini prawf amrywiaeth penodol. Pan fydd trefniadau ar gyfer achredu yn cael eu llunio'n fewnol, bydd materion cydraddoldeb hiliol a materion amrywiaeth yn parhau i gael eu hymgorffori a'u hintegreiddio i mewn i raglenni achrededig a'r gwaith ehangach ar ymyriadau effeithiol.

5. Swyddogaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid - Cymal 23

Ar hyn o bryd, swyddogaeth a rennir yw lleoli pobl ifanc yn y ddalfa. Lleolir hyfforddeion â gorchymyn cadw a hyfforddi gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a lleolir troseddwyr adran 90 a 91 gan y Gwasanaeth Carchardai. Er mwyn cyfuno'r ddwy rôl, a sicrhau manteision o ran rheoli'r ystad ddiogel ar gyfer troseddwyr ifanc, mae angen diwygio pŵer lleoli adran 90/91 (sydd wedi'i gynnwys yn adran 92 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000) i alluogi'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w arfer.

6. Gorchmynion cadw a hyfforddi: rhyddhau'n gynnar - Cymal 24

Yn amodol ar feini prawf penodol (sy'n gysylltiedig ag ymddygiad derbyniol yn y ddalfa yn bennaf), gellir rhyddhau hyfforddeion gorchmynion cadw a hyfforddi sy'n bwrw gorchmynion tymor canolig neu hirdymor fis neu ddeufis yn gynnar. Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn ei gwneud yn ofynnol i ryddhau hyfforddeion yn gynnar yn *union* fis neu ddeufis cyn y dyddiad rhyddhau arferol. Os bydd y dyddiad hwnnw yn mynd heibio - er enghraifft oherwydd oedi gweinyddol -rhaid i'r hyfforddai aros yn y ddalfa tan ddiwedd y tymor. Byddai'r cymal hwn yn caniatáu rhyddhau hyfforddai *yn agos at* fis neu ddeufis cyn y dyddiad rhyddhau arferol. Dylai fod mantais (bach iawn) o ran lleihau'r niferoedd yn y ddalfa. Ni fyddai'n effeithio ar gymhwysedd hyfforddai i'w ryddhau'n gynnar na phroffil hyfforddeion y caniateir iddynt gael eu rhyddhau'n gynnar. Diwygiad technegol yw hwn, ac ni chredwn fod ganddo unrhyw oblygiadau o ran amrywiaeth.

7. Llety ar gyfer bwrw cyfnod cadw a hyfforddi - Cymal 25

Dylai'r ddarpariaeth hon gael effaith fuddiol ar droseddwyr yn y ddalfa a dylai gael effaith gyfartal ar grwpiau ethnig gwahanol. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn monitro ethnigrwydd mewn lleoliadau diogel. Awgrymwyd yn yr ymgynghoriad y dylid cyhoeddi canllawiau er mwyn sicrhau nad yw lleoliadau yn cael effaith anghyson ar gydraddoldeb hiliol, a byddwn yn mynd ati i sefydlu canllawiau gweithredu.

8. Troi dedfryd gadw yn ddedfryd o garchar - Cymal 26

Ar hyn o bryd, yr isafswm oedran y gall person gael dedfryd o garchar yw 21 oed. Mae Adran 61 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau'r Llys (nad yw wedi dod i rym eto) yn ei ostwng i 18 oed. Mae angen diwygio'r pŵer cyfredol i droi dedfryd gadw yn ddedfryd o garchar pan fo person ifanc yn cyrraedd 21 oed er mwyn ystyried y gostyngiad hwnnw o ran yr isafswm oedran. Diwygiad canlyniadol yw hwn yn syml. Ni chredwn fod ganddo unrhyw oblygiadau o ran amrywiaeth.

9. Trefniadau cludo - Cymal 27

Darperir ar gyfer cludo troseddwyr ifanc rhwng llysoedd, sefydliadau, ysbytai a gorsafoedd heddlu mewn dau ddarn o ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae rhai achosion o drosglwyddo (y rhai rhwng sefydliadau troseddwyr ifanc a chanolfannau hyfforddi diogel yn bennaf) na chânt eu cwmpasu gan y naill na'r llall. Fodd bynnag, mae'r cyfryw drosglwyddiadau yn digwydd ac mae angen y cymal hwn i'w cynnwys yn ddeddfwriaethol. Ni fydd y newid hwn yn cael effaith anghyfartal ar unrhyw gategori o hyfforddeion.